**Adroddiad ar**

**Ysgol G.W.R. Glanyfferi**
**Glanyfferi**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA17 5TB**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/04/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig Glan y Fferi yng Nglan y Fferi, tua naw milltir o dref Caerfyrddin.  Mae 66 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys chwe phlentyn oed meithrin amser llawn.  Addysgir y plant mewn tri dosbarth.  Mae'r ysgol yn nodi bod y disgyblion yn dod o gefndiroedd amrywiol gyda rhai'n freintiedig ac eraill yn ddifreintiedig.

Daw 92% o'r disgyblion o gartrefi ble mae Saesneg yn brif iaith.  Ychydig iawn o'r disgyblion sydd yn hanu o gefndir ethnig ac mae 9% o'r disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae 14% ar y gofrestr anghenion addysgol ychwanegol ac nid oes gan yr un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2007.  Penodwyd y pennaeth presennol ynghyd ag athrawes arall i'w swyddi ym Medi 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig Glan y Fferi yn 2012-2013 yw £3,627.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £25,997 a'r lleiafswm yw £2,878.  Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig Glan y Fferi yn safle 56 o'r 108 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod Ysgol Glanyfferi yn gymdeithas glos, gynnes a chynhwysol sy'n cynnig gofal arbennig i'w disgyblion;
- bod yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau diddorol sydd yn ennyn diddordeb ac yn ymateb i anghenion llawer o ddisgyblion;
- bod medrau Cymraeg llafar y disgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn dda;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu;
- bod iechyd a lles y disgyblion yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol; a
- bod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cyson a pharhaus.

Serch hyn:

- nid oes digon o gynnydd ym medrau darllen ac ysgrifennu estynedig llawer o ddisgyblion yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2;
- nid oes digon o her i sicrhau bod y disgyblion mwyaf galluog yn gwneud cynnydd priodol ar draws y cwricwlwm;
- nid yw systemau asesu eto yn ddigon cadarn; ac
- nid yw asesu ar gyfer dysgu wedi datblygu'n llwyr ac nid yw'r marcio bob amser yn dangos yn ddigon clir sut i wella ansawdd a chynnwys y gwaith.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod gan yr ysgol raglen fonitro addas sydd yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y dyfodol;
- bod y pennaeth wedi pennu rhai agweddau pwysig ar gyfer gwella ac mae y staff a'r corff llywodraethol yn deall y blaenoriaethau ar gyfer gwelliant;
- bod yr ysgol yn cydweithio'n briodol gydag ystod o bartneriaid mewn perthynas â phrofiadau cwricwlaidd a hyrwyddo lles y disgyblion; a
- bod ymrwymiad cryf i gydweithio gyda ysgolion eraill yn lleol ar gyfer datblygu agweddau ar y ddarpariaeth.

Serch hyn:

- nid yw adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn cynnig darlun digon cywir o ansawdd yr addysgu;

- er bod cyfrifoldebau cwricwlaidd priodol wedi eu rhannu rhwng aelodau'r staff, yn gyffredinol, nid yw cydlynwyr wedi cael digon o effaith ar ansawdd y cwricwlwm a safonau; ac
- Er bod llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr hyderus, nid ydynt yn dangos gallu cynyddol i weithio'n annibynnol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella agweddau o addysgu yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2

A3 Gwella'r cynllunio er mwyn gwahaniaethu'n effeithiol a sicrhau her gyson ar gyfer y disgyblion mwyaf abl

A4 Darparu mwy o gyfleoedd i hybu medrau meddwl disgyblion a sicrhau eu bod yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain

A5 Cryfhau systemau hunanwerthuso'r ysgol yn enwedig trefniadau arsylwi gwersi a monitro gwaith disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau Cymraeg llafar y disgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae llawer yn trin a thrafod yn dda ar draws ystod o bynciau, gan ddefnyddio geirfa eang. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn siarad yn gywir yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol, ond heb fod yn estynedig.

Mae medrau darllen disgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn hyderus ac ar lefel sy'n addas i'w hoed a'u gallu. Lleiafrif o ddisgyblion yn unig sy'n magu diddordeb mewn llyfrau ac yn datblygu'n ddarllenwyr eiddgar.

Mae ychydig iawn o'r disgyblion yn ymwybodol o'u targedau, ac maent yn cychwyn trafod nodweddion da eu gwaith gyda pheth dealltwriaeth o'r hyn y gallent ei wneud i wella. Mae gallu'r disgyblion i werthuso'u gwaith eu hunain a'u cyfoedion yn datblygu'n briodol. Er eu bod yn datblygu'n ddysgwyr hyderus, nid yw eu gallu i weithio'n annibynnol yn datblygu'n briodol. Mae safonau medrau meddwl a datrys problemau llawer o ddisgyblion yn annigonol.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cyson a pharhaus. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd priodol ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu hysgrifennu. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion cynyddol, gan ddechrau amrywio brawddegau a defnyddio atalnodi. Lleiafrif ohonynt sy'n dewis ymgymryd â gweithgareddau ysgrifennu fel rhan o weithgarwch cyffredinol y dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae lleiafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn ysgrifennu yn y ddwy iaith ond nid yw'r cyflwyniad ar bapur yn gyson daclus. Nid yw disgyblion o allu uwch yn datblygu'n eu gallu i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm yn briodol.

Er bod lleiafrif o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn rhifedd, nid yw medrau mwyafrif y disgyblion wedi datblygu digon ac ni chânt eu defnyddio'n gyson mewn pynciau a meysydd dysgu gwahanol. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf yn cyflawni safonau da mewn medrau creadigol, gydag ansawdd eu gwaith celf yn arbennig o uchel.

Oherwydd y nifer fach o ddisgyblion sy'n aml ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon yn ofalus. Nid oes patrymau amlwg o wahaniaethau rhwng perfformiad bechgyn o'u cymharu â'r merched.

Mae cyfran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig yn Nangosydd Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen ychydig yn is na chanlyniadau disgyblion mewn ysgolion eraill yn y teulu. Mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd y deilliant disgwyliedig ym mhob maes dysgu unigol yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu. Serch hyn, ni chyflawnodd yr un plentyn y lefel uwch mewn unrhyw un o'r meysydd

dysgu yn 2012. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y nifer disgyblion â hawl i ginio am ddim mae perfformiad y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf ar gyfer cyflawniad deilliant 6 yn y tri maes dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyflawniad y disgyblion yn dda mewn perthynas â chyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canlyniadau Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn 2012 hefyd yn uwch na chanlyniadau'r teulu. Cafwyd cynnydd sylweddol ym mherfformiad y disgyblion mewn Cymraeg ac mae canlyniadau gwyddoniaeth wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu am y pum mlynedd ddiwethaf. Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaledd ysgolion yn y teulu. Serch hyn, yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, nid oes yr un plentyn wedi cyrraedd y lefel uwch mewn Cymraeg. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer y plant â hawl i ginio am ddim mae cyflawniad y disgyblion yn y lefelau uwch mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf ond mewn Cymraeg a mathemateg mae ymhlith y 50% isaf.

**Lles: Da**

Mae Ysgol Glanyfferi yn ysgol hapus lle mae'r disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn teimlo'n bryderus. Mae'r holl ddisgyblion yn gwrtais ac mae ymddygiad y plant yn ystod y gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn dda iawn.

Mae bron pob disgybl yn dangos parch gwirioneddol tuag at oedolion a chyfoedion ac mae hyn yn gryfder drwy'r ysgol. Mae'r gofal sydd yn cael ei arddangos gan blant hŷn wrth iddynt ofalu am y rhai iau yn arbennig ac mae'n cyfrannu at yr ethos cynhwysol a chartrefol sy'n bodoli drwy'r ysgol. Mae hyn yn sylfaen dda ar gyfer datblygu eu medrau bywyd ymhellach.

Mae'r disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau drwy eu cyfraniad i'r Cyngor Ysgol a'r gweithgarwch Eco. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn falch o'r mentrau sydd ganddynt i wella amgylchedd yr ysgol. Mae mwyafrif y disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd amrywiol i fod yn rhan o'r gymuned o'u cwmpas ac yn cyfrannu'n helaeth at waith elusennol yr ysgol.

Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn meddu ar rai medrau sy'n eu helpu i wella eu dysgu eu hunain. Er hynny, nid yw'r elfen hon wedi ei datblygu'n ddigonol ar draws cyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos cymhelliant amlwg yn eu dysgu, ond nid ydynt yn cyfrannu'n ddigonol at gynllunio'r hyn y maent yn ei ddysgu trwy gymryd cyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau.

Mae presenoldeb y disgyblion wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf rhwng yr 50% uchaf a'r 50% isaf o ysgolion tebyg ar sail canran disgyblion sydd â hawl i brydau am ddim. Mae prydlondeb y disgyblion wrth gyrraedd yr ysgol yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r Ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau diddorol sydd yn ennyn diddordeb, ac yn ymateb i anghenion, llawer o ddisgyblion. Mae'r gweithgareddau yn bodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol. Serch hynny, nid yw'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen yn diwallu'r gofynion yn llawn, ac nid oes digon o her i ddisgyblion o allu uwch ar draws yr ysgol. Ar ei orau, gwelir cynllunio effeithiol sy'n ystyried anghenion disgyblion unigol ac yn darparu gweithgareddau gwahaniaethol ac adnoddau pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau dysgu annibynnol a medrau meddwl yn dechrau cael sylw pwrpasol. Nid yw'r ddarpariaeth yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu ystod o fedrau darllen ac ysgrifennu da yn y ddwy iaith erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn adolygu elfennau o'i darpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau wedi cael amser i ymsefydlu ac i ddylanwadu'n llawn ar safonau'r disgyblion.

Mae'r addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi ei wreiddio'n dda yn yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol a'r gweithgarwch eco amrywiol yn brawf o hyn. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i alluogi'r disgyblion i gymryd rhan mewn amryw o fentrau sy'n datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd ynghyd â'u hymwybyddiaeth o werth helpu eraill llai ffodus na hwy. Mae'r ysgol wedi ennill y Faner Werdd am yr ail dro. Trwy gynllunio gweithgareddau i hyrwyddo mentergarwch, mae bron pob un o'r disgyblion yn datrys problemau a medrau meddwl ar draws y cwricwlwm.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig ei datblygu'n gynyddol ar hyd yr ysgol.

**Addysgu: Digonol**

Mae ethos gweithgar a hapus yn yr ysgol ac mae ymdeimlad o barch yn amlwg yn y dosbarthiadau. Yn y mwyafrif o'r gwersi, mae cwestiynu yn dda ac yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol.

Yn y gwersi llai effeithiol, nid yw cynllunio'r athrawon yn ddigon manwl. Yn y gwersi hyn, nid yw'r tasgau yn gwahaniaethu digon i gyfarfod ag anghenion disgyblion unigol. Mae cyflymder y gwersi'n rhy araf ac nid oes digon o herio disgyblion i gyflawni safonau uwch. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn orddibynnol ar arweiniad yr athro ac nid oes cyfleoedd digonol i'r disgyblion ymestyn eu gwaith, eu gwybodaeth a'u hannibyniaeth wrth ddysgu.

Nid yw'r trefniadau ar gyfer marcio gwaith y disgyblion yn ddigon dadansoddol ac nid yw'r sylwadau ysgrifenedig yn nodi'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno trefniadau i alluogi'r disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain. Mae hefyd wedi mabwysiadu trefniadau i osod targedau unigol ar gyfer disgyblion. Mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y datblygiadau hyn ar safonau ac

nid ydynt yn gwbl weithredol ym mhob dosbarth. Mae'r system o lefelu a chymedroli gwaith disgyblion yn dechrau gwella dealltwriaeth yr athrawon o lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol.

Mae cynorthwywyr dosbarth yn rhoi cefnogaeth dda i'r holl ddisgyblion, ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'r athrawon dosbarth. Mae pob un o'r staff addysgu, gan gynnwys y staff cymorth, yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn effeithiol.

Mae'r adroddiadau i rieni yn bodloni'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae Ysgol Glanyfferi yn gymdeithas glos, gynnes a chynhwysol sy'n cynnig gofal arbennig i'w disgyblion.

Anogir disgyblion i fynegi barn yn rheolaidd, i gyfrannu'n effeithiol at ddatblygiadau o fewn yr ysgol ac i fod ynghlwm ag amryw weithgareddau yn y gymuned leol. Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu yn cynnig cyfleoedd ysgogol i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y dysgwyr.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta iach a datblygu dulliau iachus o fyw. Rhoddir cyfle i'r disgyblion gymryd cyfrifoldeb dros iechyd a lles eu cyd-ddisgyblion ac ymfalchïant yn eu swyddogaethau. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o'u cyfrifoldebau tuag at gymdeithas a'u rôl fel dinasyddion cydwybodol. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu. Mae hyn yn cynnwys trefniadau addas ar gyfer recriwtio, disgyblu a sicrhau addasrwydd staff a gwirfoddolwyr.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Defnyddir amrywiaeth o raglenni ysgogol ac mae cynlluniau addysg unigol y disgyblion yn cael eu hadolygu'n briodol. Mae'r trefniadau sefydlu ar gyfer disgyblion newydd a'r trefniadau pontio gyda'r ysgolion uwchradd yn effeithiol.

Mae cyfundrefnau'r ysgol i hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb yn effeithiol

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos hapus a chartrefol yn yr ysgol. Mae yma ymdeimlad cynhwysol sy'n annog disgyblion i roi o'i gorau. Gwerthfawroga'r disgyblion yr ofalaeth a'r cyfleoedd a gynigir iddynt a dangosant barch at eu hathrawon ac ymwelwyr.

Mae gweithdrefnau a pholisïau'r ysgol yn eu lle i sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac mae'r rhain yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol. Mae'r polisïau hyn yn hysbys i'r holl staff a chânt eu diweddaru'n gyson yn ôl y gofyn.

Ceir arddangosfeydd amrywiol a lliwgar o waith a llwyddiannau'r disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth ac ar hyd coridorau'r ysgol. Mae yma adnoddau digonol i fodloni anghenion y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r safle a'r ardaloedd dysgu wedi eu datblygu yn addas i weithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Addaswyd yr adeilad dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau hygyrchedd mynediad i bawb. Mae'r disgyblion yn elwa o'r trefniadau ar gyfer defnyddio'r neuadd bentref

gyfagos fel adnodd ychwanegol ar gyfer digwyddiadau a gwersi addysg gorfforol. Cedwir safle'r ysgol yn lân a graenus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth wedi pennu agweddau pwysig ar gyfer gwella ar sail dadansoddiadau trylwyr o ddata sy'n cynnwys cymharu perfformiad yr ysgol ag ysgolion tebyg a chanlyniadau profion darllen. Mae'r blaenoriaethau yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau llythrennedd a gwella cyflawniadau disgyblion. Hefyd, mewn cyfnod cymharol fyr, mae datblygiadau yn gysylltiedig ag agweddau fel asesu ar gyfer dysgu a'r Gymraeg wedi dechrau cael effaith ar agweddau pwysig ar y ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth yr ysgol dros gyfnod wedi cael digon o effaith ar wella ansawdd yr addysgu yn y dosbarthiadau.

Mae dealltwriaeth glir gan aelodau eraill y staff a'r corff llywodraethol o'r blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n briodol ar wella agweddau ar y ddarpariaeth. Serch hynny, nid yw'r cofnodion yn nodi'r prif benderfyniadau a wnaed a'r camau gweithredu a gytunwyd.

Mae cyfrifoldebau cwricwlaidd priodol wedi eu rhannu rhwng aelodau'r staff. Arweiniodd hyn at adolygiad o'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw gwaith y cydlynwyr wedi cael digon o effaith ar ansawdd y cwricwlwm a safonau.

Mae rhai aelodau o'r corff llywodraethol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i helpu â datblygiad darllen ac yn ymweld â dosbarthiadau i arsylwi'r gwaith. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth briodol o'r modd y mae perfformiad yr ysgol yn cymharu ag ysgolion tebyg. Mae hyn yn eu galluogi i weithredu'n addas fel cyfeillion beirniadol a chyfrannu at bennu blaenoriaethau ac adolygu cynnydd. Mae'r corff llywodraethol wedi llunio hunanarfarniad defnyddiol o'r modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau.

Mae'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a chodi safonau llythrennedd, ynghyd â'r ymrwymiad i weithio ar y cyd ag ysgolion eraill, yn tystio i'r sylw a roddir i flaenoriaethau cenedlaethol. Nid yw egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi cael digon o effaith ar ansawdd y ddarpariaeth i'r plant ieuengaf.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol raglen fonitro addas ar gyfer hunanarfarnu. Mae'r ysgol wedi cyflwyno trefniadau i arsylwi'r addysgu yn y dosbarthiadau ac i archwilio llyfrau'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw deilliannau y trefniadau hyn yn ddigon manwl a threiddgar i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Nid oes gan yr ysgol drefniadau ffurfiol ar gyfer casglu a dadansoddi barn disgyblion a rhieni yn rheolaidd.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen gynhwysfawr sy'n cwmpasu ystod o agweddau. Mae'n cynnig arfarniadau ac yn nodi agweddau priodol lle mae angen gwelliant. Er hynny, nid yw'r adroddiad yn cynnig darlun digon cywir o ansawdd yr

addysgu ac asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r medrau llythrennedd.

Mae cyswllt tynn rhwng yr agweddau i'w gwella yn yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol, sy'n cynnwys blaenoriaethau priodol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'r cynllun yn manylu'n briodol ar gyfer bwriadau'r tymor byr, ynghyd â chamau gweithredu priodol a therfynau amser. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r blaenoriaethau, mae targedau meintiol priodol wedi eu pennu i hwyluso adolygu cynnydd.

Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Mae ymrwymiad cryf i gydweithio gydag ysgolion eraill yn lleol ar gyfer datblygu agweddau ar y ddarpariaeth. Mae hefyd yn datblygu'n briodol fel cymuned ddysgu mewn perthynas â chodi safonau llythrennedd. Nid yw'r ysgol eto wedi sefydlu cysylltiadau ag ysgolion eraill y teulu o ysgolion tebyg.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol gydag ystod o bartneriaid mewn perthynas â phrofiadau cwricwlaidd a hyrwyddo lles y disgyblion.

Mae perthynas gadarn wedi ei sefydlu â'r rhieni, sydd yn gefnogol iawn i'r ysgol. Cynhelir nosweithiau buddiol er mwyn datblygu dealltwriaeth y rhieni o faterion yn ymwneud ag addysg eu plant. Mae'r ysgol wedi datblygu gwefan newydd sydd yn gyfrwng effeithiol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth gyfredol a defnyddiol am fywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r ysgolion uwchradd lleol mewn perthynas â threfniadau trosglwyddo a chynlluniau pontio. Mae cysylltiadau cryf gyda'r cylch meithrin lleol, sydd yn cynnwys cyfleoedd i'r plant meithrin ymuno â'r plant ieuengaf pan fydd ymwelwyr gwadd.

Mae'r ysgol yn manteisio ar ymweliadau gan wasanaeth y frigâd dân, nyrs ysgol a swyddogion o'r heddlu. Mae hefyd yn cydweithio gydag asiantaeth hyrwyddo byd gwaith, ynghyd â busnesau lleol, er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o fentergarwch a byd busnes.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd llawn o'r adnoddau y mae'r adeilad yn eu cynnig, ac yn manteisio ar neuadd y pentref ar gyfer cynnal cyngherddau. Mae hefyd yn defnyddio'r neuadd ac arbenigedd oedolion ar gyfer gwersi addysg gorfforol i ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Nid yw'r safle allanol wedi ei ddatblygu ddigon ar gyfer gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn llawn.

Mae trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff addysgu, sydd yn cynnwys pennu targedau priodol ar eu cyfer. Nid oes trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer staff ategol.

Mae’r cynllun datblygu ysgol yn clustnodi symiau penodol ar gyfer gweithredu’r bwriadau.  Mae’r corff llywodraethol yn monitro gwariant yn rheolaidd ac wedi cymryd camau rhesymol i leihau gorwariant yn dilyn gostyngiad diweddar yn niferoedd y disgyblion.

O ystyried y deilliannau ac ansawdd  y ddarpariaeth, mae’r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dylid ystyried y tueddiadau yn nata perfformiad yr ysgol gyda gofal gan fod nifer y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod yn fechan iawn

**Y Cyfnod Sylfaen**

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i gyhoeddi data Cyfnod Sylfaen, nid oes data tueddiad ar gael. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, mae canlyniadau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (Deilliant 5 neu'n uwch) yn Nangosydd Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen ychydig yn is na chanlyniadau disgyblion mewn ysgolion eraill yn y teulu. Mae cyflawniadau disgyblion mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu Saesneg, yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru gyfan. Mae eu canlyniadau yn y Gymraeg hefyd yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mewn datblygiad mathemategol yn ogystal â datblygiad personol a chymdeithasol, mae canlyniadau disgyblion eto yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru gyfan.

Serch hyn, ni chyrhaeddodd yr un disgybl lefel uwch na'r disgwyl (Deilliant 6) mewn unrhyw un o'r meysydd dysgu.

Mae'r gwahaniaethau rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched sy'n cyflawni Deilliant 5 yn amrywio. Mae'r bechgyn yn cyflawni'n well na'r merched mewn datblygiad mathemategol sydd yn groes i'r darlun cenedlaethol. Ar y llaw arall, mae'r merched yn perfformio'n uwch na'r bechgyn mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

**Cyfnod Allweddol 2**

Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyfartal neu'n uwch na chyfartaleddau'r teulu a chyfartaleddau ysgolion Cymru mewn 4 o'r 5 mlynedd diwethaf.

Yn 2012, mae cyflawniad y disgyblion yn lefel 4 ym mhob pwnc craidd, yn llawer uwch na chyfartaleddau'r teulu ac ysgolion Cymru.

Mae perfformiad disgyblion yr ysgol dros y 5 mlynedd diwethaf wedi bod yn anghyson. Am y ddwy flynedd diwethaf, bu canlyniadau mewn Saesneg a Chymraeg ymhlith y 50% isaf yng Nghymru. Mae canlyniadau'r disgyblion ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol yn 2012. Mewn cymhariaeth ag ysgolion gyda chanran debyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, mae cyrhaeddiad y disgyblion mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ymhlith y 25% uchaf y grŵp. Mae gwyddoniaeth wedi bod ymhlith y 25% uchaf am y 5 mlynedd diwethaf. Llwyddodd pob plentyn i gyrraedd lefel 4 mewn llafaredd a darllen yn Saesneg ac yn Gymraeg gyda safonau mewn ysgrifennu ychydig yn is.

Mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel yn uwch na’r disgwyl (lefel 5) hefyd yn anghyson dros y pedair blynedd ddiwethaf.  Yn 2012, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Nid oes yr un plentyn wedi cyrraedd lefel 5 mewn Cymraeg ers 2008.  Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol gydag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol mewn lefel 5 wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf dros y pedair blynedd flaenorol ym mhob pwnc craidd.  Nid oes gwahaniaethau amlwg dros gyfnod yng nghyflawniad y bechgyn a’r merched.

Nid yw’n bosibl cymharu cyflawniad disgyblion sydd â’r hawl i ginio am ddim gyda’r gweddill dros gyfnod gan nad oes disgyblion felly mewn nifer o’r blynyddoedd dros y pum mlynedd ddiwethaf.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr

Ymatebodd 20 o ddisgyblion i’r holiadur. Mae bron pob un o’r ymatebion yn gadarnhaol iawn ac nid oes gwahaniaethau nodweddiadol rhwng ymatebion y bechgyn a’r merched. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o’r ymatebion cadarnhaol yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Mae bron pob un disgybl yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol, ac yn credu bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd, mae pob disgybl yn gwybod beth i’w wneud, a gyda phwy i siarad. Pan fo achosion o fwlian, mae llawer plentyn yn hyderus bod yr ysgol yn delio’n dda gyda phob achos a gwyddai llawer gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu’n gofidio. Cred bron pob un disgybl eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, a bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Serch hyn, mae ychydig iawn o’r disgyblion yn credu nad yw’r gwaith cartref a osodir yn eu helpu i ddeall eu gwaith yn yr ysgol.

Mae bron pob un yn dweud bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a’u bod yn gallu gwneud eu gwaith.  Mae pob un yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. Mae llawer ohonynt yn credu bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach a bod llawer o gyfleoedd am ymarfer corff rheolaidd yn yr ysgol.

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Derbyniwyd 18 o atebion i’r holiaduron rhieni  Mae bron pob rhiant yn mynegi lefelau uchel o foddhad gyda'r ysgol. Mae cyfran yr ymatebion cadarnhaol ym mron pob un achos yn sylweddol uwch na chymariaethau cenedlaethol.

Mae pob rhiant yn credu bod y staff yn disgwyl i’r plant weithio’n galed ac i wneud eu gorau. Mae bron pob un yn credu’n gryf bod eu plant yn cael eu trin â pharch ac mae llawer yn credu bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol.

Mae bron pob un yn cytuno bod yr ysgol yn cael ei harwain yn effeithiol, ac yn hapus gydag ansawdd yr addysgu.  Mae bron pawb yn fodlon ag ymddygiad y plant yn yr ysgol ac yn cytuno bod yr ysgol yn cynorthwyo'u plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.  Mae bron pob un hefyd yn teimlo bod gwaith cartref yn adeiladu'n ddigonol ar y gwaith a wneir yn yr ysgol.

Mae ychydig o'r rhieni yn credu nad ydynt yn derbyn digon o wybodaeth am gynnydd eu plentyn.  Mae bron pob rhiant yn deall trefn yr ysgol ar gyfer codi cwyn, ac yn nodi eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

Mae bron pob rhiant yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn gwneud cynnydd da a bod y staff wedi eu helpu i ymgartrefu'n dda wrth gychwyn yn yr ysgo.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dyfrig Wyn Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Iolo Dafydd | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Diane Ebo | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rayanne Rogers | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.